Cofnodion cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd o bell drwy fideogynhadledd
**ddydd Mercher, 09 Chwefror 2022**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Lynford Thomas (Cadeirydd), John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Odwyn Davies, Meirion Davies, Peter Davies MBE, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Mr Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio, Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r Gogledd, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Catrin Newbold, Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu, Mrs Sian Holder – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r De, Mrs Ffion Lloyd – Cyfreithiwr, a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(10:00am – 11:10am)

**1 Materion Personol**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**2 Ymddiheuriadau**
Roedd y Cynghorydd Gwyn James wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddo ddod i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorwyr Rhodri Evans a Dai Mason y byddent yn gadael y cyfarfod yn gynnar oherwydd bod ganddynt ymrwymiadau eraill.

**3 Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu**
Dim.

**4 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2022**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2022 yn gywir.

**Materion yn codi**
Dim.

**5 Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor**
Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch y ceisiadau cynllunio a ganlyn a drafodwyd yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor ac yr oedd angen iddo eu hystyried ymhellach:-

A210615 Llain adeiladu arfaethedig ar gyfer un annedd, gyda mynedfa newydd at y briffordd, Llain wrth ymyl Dolau Gwyn, Dole, Bow Street, Aberystwyth

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais yn ddibynnol ar gwblhau cytundeb Adran 106 ar gyfer annedd fforddiadwy, derbyn Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, a chytuno ar annedd lai o faint, gan ganiatáu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio GYMERADWYO'R cais os yw'r ymgeisydd yn cytuno â'r amodau a'i WRTHOD os na ellir dod i gytundeb.

---

A210722 Byngalo ymddeol arfaethedig, Garej Bayview, Parc-llyn, Aberteifi

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais am fis er mwyn ystyried gwybodaeth bellach a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd ers y cyfarfod diwethaf am nad oedd pob swyddog na phob Aelod wedi cael cyfle i weld yr wybodaeth hon; hefyd, gofyn ar gais Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio i'r ymgeisydd a'r asiant ddarparu erbyn dydd Gwener yr wybodaeth gywir yr hoffent i'r swyddogion, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac yna'r Pwyllgor ei hystyried o ran eu cais, a hynny oherwydd bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn yn gwrthdaro â'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod blaenorol.

**6 Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu**

Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

A210966 Addasu dwy ysgubor yn llety gwyliau (Newid Defnydd) a chadw'r gwaith a wnaed hyd yma a'i gwblhau, ynghyd â darparu ardal barcio allanol ar fuarth y fferm i wasanaethu'r unedau, Fferm Pengarreg, Llanilar, Aberystwyth

Nodi bod y cais WEDI'I DYNNU YN ÔL.

---

A210997 Cadw dau gaban gwyliau pren a gwella'r briffordd i ddarparu lôn fynediad at y safle, gan gynnwys dwy gilfan basio a gwelliannau i'r gyffordd. Fferm Pengarreg, Llanilar, Aberystwyth

Nodi bod y cais WEDI'I DYNNU YN ÔL.

**7 Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig**

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

**8 Apeliadau**

Dim.

**9 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 9 Mawrth 2022**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**